# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran F

### Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 06 Mawrth 2001 i'w hateb ar 20 Mawrth 2001

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog y Cynulliad

**1. Owen John Thomas (Canol De Cymru)**; Pa asesiad sydd wedi bod ar effaith polisïau'r Cynulliad ar Fro Morgannwg. (OAQ10383) [W]

**2. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Sut y bydd datblygiadau diweddar yn y diwydiant dur yn effeithio ar bolisïau'r Cynulliad ar gyfer partneriaeth â'r byd busnes. (OAQ10403)

**3. Alison Halford (Delyn);** A wnaiff ddatganiad ar ei ymweliad â dociau Chwitffordd ar 9 Mawrth. (OAQ10407)

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar gynnydd o ran cyflawni'r amcanion yn Rhaglen Fusnes Flynyddol y Llywodraeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 21 Tachwedd 2000. (OAQ10404)

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Sut y bydd y Cynulliad yn parhau i gydbwyso galwadau datblygu cynaliadwy, economi wledig sy'n gweithio, a diogelu iechyd a bwyd. (OAQ10418)

**6. David Davies (Mynwy);** Ym mha ffordd y mae sefydlu'r Cynulliad wedi gwella statws Cymru oddi mewn i'r UE. (OAQ10385)

**7. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau a fu rhyngddo ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch goblygiadau araith cyllideb y Canghellor i Gymru. (OAQ10384)

**8. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A all wneud datganiad ar yr ymdrechion a wnaed gan Gabinet y Cynulliad i sicrhau bod yr amcanion a bennwyd yn gwellcymru.com yn cael eu

cyflawni. (OAQ10409)

**9. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff ddatganiad ar y trafodaethau rhyngddo ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cymorth gan Gymru i leihau'r ddyled ryngwladol. (OAQ10415)

**10. Val Feld (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar effaith polisïau'r Cynulliad ar Dde Orllewin Cymru. (OAQ10422)

**11. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar unrhyw drafodaethau rhyngddo ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a chydweithwyr yn San Steffan ar gydlynu polisïau sy'n ymwneud â phartneriaethau â'r byd Busnes. (OAQ10387)

**12. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff ddatganiad ar hynt diweddar polisi a strategaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngogledd Cymru. (OAQ10408) **TYNWYD YN OL**

**13. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin);** A wnaiff ddatganiad ar gryfder y berthynas rhwng Cymru, y DU a gweddill yr UE o ran polisi rhyngwladol. (OAQ10411) **TYNWYD YN OL**

**14. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae wedi'u cyflwyno i San Steffan yn ddiweddar ar raglen ddeddfwriaethol y llywodraeth. (OAQ10386)

**15. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa fesurau y mae'n eu defnyddio i sicrhau bod cyfranogiad cymunedol yn cael ei hybu ym maes polisi amgylcheddol, polisi diwylliant a pholisi cymdeithasol. (OAQ10410) **TYNWYD YN OL**

**16. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Yn rhinwedd ei rôl fel cydlynydd datblygiad polisi, beth y mae Prif Weinidog Cymru yn ei wneud i sicrhau bod cymunedau sydd angen y cymorth cymdeithasol a'r cymorth economaidd mwyaf yn eu cael. (OAQ10413) **TYNWYD YN OL**

**17. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad yn dilyn ei araith "Variable Geometry UK" ar 14 Chwefror 2000. (OAQ10419) **TYNWYD YN OL**

**18. Helen Mary Jones (Llanelli);** A all wneud datganiad byr ar y ffordd y mae'r iaith Gymraeg yn effeithio ar bob un o feysydd polisi'r Cynulliad, gan gynnwys gofal iechyd, addysg, a datblygu economaidd. (OAQ10420) **TYNWYD YN OL**

**19. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Sawl gwaith y mae Prif Weinidog Cymru wedi ymweld ag Ynys Môn ers iddo ymgymryd â'i gyfrifoldebau arbennig dros Ogledd Cymru. (OAQ10405)

**20. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa asesiad y mae wedi'i wneud ynghylch pwysigrwydd

ffordd yr A49, A5 i Ogledd Cymru o ran datblygu polisi'r Cynulliad ar gyfer Gogledd Cymru. (OAQ10406) **TYNWYD YN OL**

**21. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff ddatganiad ynghylch hynt y gwaith o ddatblygu isadeiledd sydd wedi ei gydlynu'n well ac sy'n fwy cynaliadwy er mwyn cefnogi cymunedau lleol a chreu economi ffyniannus fel yr amlinellwyd yn gwellcymru.com. (OAQ10416) **TYNWYD YN OL**

**22. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A all wneud datganiad ar sut y mae'r Cynulliad, drwy ddatblygu a chydlynu materion iechyd, gofal cymdeithasol, a chynhwysiant cymdeithasol, yn bwriadu helpu'r 40% o oedolion yng Nghymru y mae eu hiechyd yn amharu ar eu gweithgareddau cymdeithasol dyddiol. (OAQ10412) **TYNWYD YN OL**

**23. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad yn dilyn ei gyfarfod diwethaf yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru, ar 28 Chwefror 2001. (OAQ10421)

**24. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gamau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n parhau i fod ar gael yn ystod y cyfyngiadau a gyflwynir yn sgil clefyd y Traed a'r Genau. (OAQ10402)

**25. Brian Hancock (Islwyn);** A wnaiff ddatganiad ynghylch yr ymdrechion diweddar i ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng Cymru a gweddill Ewrop. (OAQ10414) **TYNWYD YN OL**

**26. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Pa drafodaethau a fu rhyngddo â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch datblygu ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith pleidleiswyr Cymru. (OAQ10388)**TYNWYD YN OL**

**27. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** Pa drafodaethau a fu rhyngddo â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch goblygiadau posibl yr Ewro i Gymru unwaith y gwneir defnydd llawn ohoni yn 2002. (OAQ10389) **TYNWYD YN OL**

**28. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Sut y bydd y Cynulliad, drwy ddatblygu a chydlynu materion cynhwysiant cymdeithasol, datblygu economaidd ac addysg a dysgu gydol oes, yn annog pobl Cymru yr ystyrir eu bod yn economaidd anweithgar i ddychwelyd i'r gweithlu. (OAQ10417) **TYNWYD YN OL**